YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] IONAWR, 1894. [RHIF 8

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

BLWYDDYN NEWYDD DDA.

YR ydym wedi dymuno y naill i'r llall "Nadolig llawen," ac yr ydym heddyw, ar y Sul cyntaf yn y flwyddyn newydd, yn dymuno y naill i'r llall "Flwyddyn Newydd dda." Mae llawenydd yn dda am dipyn, ond nid yw yn parhau yn hir. Mae yn perthyn i dymhor byr, fel Nadolig. Ond gall dedwyddwch ymestyn drwy yr holl flwyddyn, a dyna'r rheswm yr ydym ni yn dymuno llawenydd i'r Nadolig, a daioni neu hapusrwydd i'r flwyddyn newydd.

'Dyw hi ddim yn ddigon, fodd bynag, i *ddymuno* i'r naill a'r llall flwyddyn newydd hapus. Os gallwn, dylem helpu y naill a'r llall i'w *gwneyd* hi yn hapus. A cheisiaf, yn bresennol, gynnyg ychydig awgrymiadau o barthed i'r modd y gallwn ni wneyd y flwyddyn newydd yn un hapus i ni ein hunain, ac i ereill.

Yn gyntaf oll, bydded i ni gofio fod pleser yn dyfod oddiallan, a dedwyddwch yn dyfod oddifewn. Mae pleser yn gymhellydd sydd wedi cael ei ddanfon i ddeffroi y cynneddfau—mae yn dda ac yn ddefnyddiol, ac ni ddylai gael ei ddiystyru. Mae yr Arglwydd wedi llanw bywyd ag amrywiol o bleserau—pleserau i'r llygad a'r glust, i'r dychymyg a'r serch. Mor hyfryd yw golygfeydd a seiniau natur,—anadl felus y boreu, dynesiad gogoneddus yr haul, swyn cân yr adar sydd yn dadgan fod eu bywyd yn orfoleddus Hyfryd yw gweithgarwch dydd newydd, sydd yn dyfod yn llawn o obaith; hyfryd yw dynesiad tawel yr hwyr, a gorphwysfa'r nos. Hyfryd yw cwrdd â chyfeillion, hefyd y cyffro ag ydym yn deimlo mewn ymgom ddeallus; ac hyfryd yw awyrgylch o gyfeillgarwch. Mae y cyfan hyn yn rho'i pleser, ond dim dedwyddwch. Mae pob cyffro o'r fath yn ddarfodedig, ac wedi ei fwriadu i fod felly. 'Dyw o ddim yn ymborth i'r enaid. Amgylchwch eich hunain â phob pleser sydd yn bossibl i chwi, ac os

oes gwagder oddifewn, 'dyw e'n rho'i dim un boddhad. Ystyriwch hanes dyn fel Byron—dyn godidog, wedi ei eni yn gyfoethog, wedi ei ddonio â'r athrylith fwyaf wreiddiol, yn cael ei amgylchynu gan edmygedd a serch,—holl bleserau bywyd o fewn ei gyrhaedd ef, pob uchelgais bydol yn agored iddo, ac yntau ei hunan y dyn mwyaf anfoddog yn holl Ewrop, yn cael ei yru i gaethiwed gan ellyllon ei ddewisiad penrhydd ac ystyfnig ei hun, yr hyn y galwai efe Rousseau yn "apostol trallod." Darllenwch Lyfr y Pregethwr, a gwelwch yno drueni hollol brenin oedd wedi porthi ei galon â holl bleserau a buddugoliaethau y byd, ac wedi diweddu trwy ystyried marwolaeth yn well nâ bywyd, ac yn well na'r ddau, i beidio cael ei eni erioed. Ac ar y llaw arall, ystyriwch Miltwn yn eistedd mewn dallineb a thlodi, yn byw yn nghanol y dyddiau blin, ac yn mhlith pobl enllibus o dafod, ac yn cael ei amgylchynu gan dywyllwch a pheryglon,—yn lle llyfr gwybodaeth o weithredoedd natur, dim ond y caddug cyffredinol,—ond gyda goleuni mwy Dwyfol yn ymbelydru ar ei enaid nag a freuddwydiodd yr un dyn am dano erioed. Meddyliwch am y gwladweinydd enwog hwnw yn ein hoes ni—Fawcett—yn ddall, ond yn areithiwr hyawdl, yn athraw dynion, ac yn arweinydd mewn meddwl; yr hwn oedd yn alluog, fel y *Post-Master General*, i ro'i yni newydd yn y Post Office Prydeinig; yn alluog, ar lawr Ty y Cyffredin, i ateb oddiar gof nad oedd byth yn pallu, a chywirdeb perffaith, gwestiynau mewn cyssylltiad â dyddiau, rhif a manylion masnachol. Mae y rhai'n yn wyr o athrylith; ond pwy, wrth ymweled â chartrefi y tlawd, ochr gwely y dyoddefydd nad oes dim gwella arno, nad yw wedi ei synu wrth weled y tawelwch, y tangnefedd a'r boddlonrwydd ag sydd yn aml yn peru i ni a ddaethom i ro'i cysur, i dderbyn mwy nag a allasem roddi!

Wrth eistedd ger y ffenestr yn ein tai ar ddiwrnog tesog o haf, yr ydym yn aml yn edrych gyda phleser ar goeden dal a phrydferth, a'i dail yn dawnsio yn y tes mor ysgafn a'r adar bychain sydd yn gwau oddiamgylch iddi. Yr ydym, drachefn, yn nyfnder y gauaf, yn edrych ar yr un goeden, ac yn ei gweled yn plygu dan bwys y rhew, ond gyda swyn newydd, a phrydferthwch mwy annghymharol.

Yr un fath yr ydym wedi gweled ambell i gyfaill anwyl i ni, yr hwn a ymddangosai fel pe wedi ei gymhwyso yn unig ar gyfer ffawd dda, yn cael ei ddiosg gan y storm auafol, ac yn plygu dan faich anffodion, ond gyda boddlonrwydd mwy nefol a gorfoledd mwy godidog yn llifo oddifewn nag erioed o'r blaen. Mae hyn oll yn ein dysgu ni mor wir yw yr ymadrodd hwnw yn yr Ysgrythyr sydd yn dweyd mai "allan o'r galon y mae bywyd yn dyfod."

Dyma, ynte, y peth cyntaf i'w gofio, os ydym ni am flwyddyn dda, fod pleser, yr hwn sydd yn dyfod oddiallan, yn ddarfodedig, ond fod dedwyddwch, yr hwn sydd yn dyfod oddifewn, yn arosol. Nid yr hyn sydd genym, ond yr hyn ydym, yw yr un peth angenrheidiol. Mae gwir ddedwyddwch yn llifo i'n calon o'n bywyd, o'n bodolaeth, a'n cymmeriad. "Yn amlder fy meddyliau o'm mewn, dyddanwch Duw a lawenycha fy enaid."

Yr awgrym nesaf a garwn wneyd yw hwn: Mae pleserau yn dyfod oddiwrth gymhelliadau amserol ac olynol; mae dedwyddwch yn llifo mewn ffrwd barhaus. Beth a wna ein bywyd, fel hyn, yn afon bythlifol, heb ddim i sychu fyny ffynnonell ein bywyd? Mae arnom ni eisieu rhyw amcan pwyllog, i beidio cael ein 'sgubo ymaith gan ddeniadau cysson pob dydd. Dylem beidio cael ein taflu yma a thraw gan donau amgylchiadau; beidio ymollwng dan bob ffrwd ddamweiniol ag sydd yn dyfod arnom, ond rhwyfo mewn cyfeiriad sefydlog. Rhydd hyn foddlonrwydd gwirioneddol. Yr ydym yn ddyledus am lawer i waith beunyddiol; ac os nad ydym ni yn cael ein gorfodi i weithio, dylem geisio am ryw waith rheolaidd i'w wneyd. Pryd hyny, mae genym deimlad o gyflawniad,—teimlad o fyned rhagom—o orphen rhywbeth. Mae anfoddlonrwydd yn dyfod, i fesur mawr, o'n bod ni yn peidio ymgyflwyno i ryw orchwyl cysson, yn yr hwn y gallwn wneyd cynnydd. Heblaw gwaith angenrheidiol pob dydd, mae yn dda i gael amcan defnyddiol—rhywbeth i'w wneyd nad oes orfod arnom i'w wneyd, y tu faes i gylch ein bywyd. Yr ydym yn gweled plant bychain a rhyw amcan o'r fath—yn casglu y peth hyn a'r peth arall. Mae yn well na'n bod yn gorfod dweyd: "Beth wna I?" Rhydd rhyw barhad hyd y nod i fywyd y plentyn, a dylem ro'i pob cefnogaeth i'r anturiaethau bychain hyn.

Amcan uwch nâ hyn yw cael rhyw astudiaeth arosol, yr hon a rydd undeb i'r flwyddyn; efrydu rhyw gelfyddyd neu wyddor at yr hon yr ydym yn cael ein denu. Dewiswch rywbeth—llysieuaeth, daeareg, astudiaeth o arferion adar neu anifeiliaid, cerddoriaeth. Cymmerwch gyfnod mewn hanes, a gwnewch hi yn amcan eich bywyd i gael gafael yn yr oll a ellir wybod mewn perthynas iddo. Mae pob astudiaeth o'r fath yn ymeangu ac yn ymagor fel yr ydym yn myn'd yn mlaen. Mae yn ein codi ni i uchelfanau uwch, i gael golwg ar orwel mwy eang. Mae yn lesmair, yn ein tynu ni i olygfeydd newyddion o feddwl a gweledigaeth. Yr ydym yn dechreu yn unrhyw fan, ac yn myn'd i bob man. Mae gan y dyn sydd a rhyw astudiaeth arbenig, 'does fater p'un, amcan mawr yn ei fywyd. Arbedir ef rhag llawer o feddwl gwibiog, ac mae yn dadblygu galluoedd o sylw manwl. Mae ganddo edefyn o undeb yn yr astudiaeth hon, sydd yn addysgu yr ewyllys, ac yn rhoi penderfyniad i gymmeriad.

Un fantais arbenig yn y fath astudiaeth yw ei bod yn ein cymmeryd ni allan o honom ein hunan, tra mae dylyn pleser yn diweddu ynddo'i hunan. Mae gosod ein hunain yn benderfynol i ddylyn rhyw efrydiaeth tu faes i fwynhad yn unig yn rhwystr ar hunanoldeb, ac yn eangu yr enaid. Mae hyn befyd yn help i wneyd blwyddyn dda.

Yr ydym yn gwybod fod y blaned hon ar ba un yr ydym yn byw, yn cael ei symmud gan ddau allu gwrthgyferbyniol—un yn ei thynu tuag at y canol, a'r llall yn ei gyru allan. Pe byddai un o'r galluoedd hyn yn gweithio yn annybynol ar y llall, byddai i'r blaned syrthio i'r haul, ac ymgolli yno; pe byddai'r llall yn gweithio wrtho'i hunan, neidiai y blaned i dywyllwch eithaf. Yr un fath mae enaid dyn wedi ei gwneyd i droi yn nghylchrawd y bywyd dynol trwy weithrediad

dau allu cyffelyb—un yn ei dynu i mewn arno'i hunan, y llall yn ei dynu allan o hono'i hunan, ac yn creu dyddordeb ynddo at yr hyn sydd tu allan at natur, at wirionedd, at gymdeithas, at wlad, at ddynolryw. Mae y ddau gymhelliad yn angenrheidiol, a rhaid i'r naill reoleiddio y llall.

Dywed rhai personau wrthum mai awydd am ddeddwyddwch personol yw yr unig gymhellydd yn yr enaid dynol; mai y rheswm ein bod ni yn gofalu am ereill yw, fod hyny yn ychwanegu at ein dedwyddwch ein hunan. Mai dim ond hunangarwch pur a syml, neu hunangarwch o dan glogyn, sydd yn ein hysgogi ni bob amser.

Na; 'dyw hi ddim gwir fod dyn yn cael ei ysgogi yn unig gan awydd am ddedwyddwch, neu fod ganddo hunan bob amser mewn golwg. 'D'ym ni ddim yn cael dedwyddwch fel hyn wrth edrych am dano, nac wrth ei geisio. Daw dedwyddwch i ni pan yr ydym yn meddwl am bethau eraill, pan yr ydym yn annghofio ein hunain yn mhersonau ac yn mywydau ereill, y rhai sy'n ein tynu oddiwrthum ein hunain. Rhaid i ni deimlo dyddordeb yn y rhai hyn, er eu mwyn eu hunain, nid er ein mwyn ni, i gael llawenydd ynddynt. Mae hunan-gais yn ein tori ni o gydymdeimlad â dynion, ac â phethau oddiamgylch i ni. Wrtho ei hunan yn unig gwnai ddiweddu mewn seibiant hollol o'r meddwl a'r galon, mewn unigedd enaid, ac mewn marwolaeth foesol. Ar y llaw arall, peidio cael un amcan personol, un hunan-gyfeiriad nac un nod annybynol mewn bywyd, i fod yn hollol at drugaredd buddiannau tu allan i ni, i gael ein gyru o honom ein hunain gan ddylanwadau allanol, gwnai hyn ddiweddu mewn colled o gymmeriad unigol, o argyhoeddiad personol, ac o amcan annybynol. Mae pob enaid yn *unit* yn ngolwg Duw; mae pob enaid yn hedyn i gael ei ddadblygu yn ol ei ddeddf ei hun, i dyfu fyny yn mhobpeth i'r hyn y bwriadodd Duw iddo fod. Mae Duw wedi gwneyd pob un o honom ni ar gyfer amcan neillduol; mawr neu fach: rhywbeth y rhaid i *ni* ei wneyd, a neb arall. Mae yn rhoi i un bum' talent, i arall ddwy, ac i un arall un; ond rhaid i bob un ddefnyddio a diwyllio y dalent a roddwyd iddo.

Y flwyddyn hon, ynte, bydded i bob un wneyd ei oreu i dyfu—i dyfu yn ol deddf ein bodolaeth ein hunain; i fod ein hunain, a neb arall; i fod ein hunain goreu, a thrwy hyny i gael allan ein nerth a'n gwendid. Bydded i ni fod yn driw i'n hunain, bod yn ffyddlon i'r goleuni y mae Duw yn roddi i ni, i beidio cael ein moldio gan ffasiwn, ond i sefyll ar ein traed ein hunain—rhydd hyn i bob un nerth a gallu i wneuthur daioni. Er mwyn rhoi, rhaid i ni gael. Er mwyn helpu ereill, rhaid i ni fod yn rhywbeth ein hunain.

A thrwy gael rhywbeth ein hunain, bydded i ni roi. Bydded i'r bywyd y mae Duw yn anfon i'n meddwl ac i'n calon fyned allan yn rhydd i chwilio meddyliau a chalonau ereill. Gwnewch dda heb ddysgwyl dim drachefn, ond yn foddlon ar ei bod yn ddigon o fendith i fod yn abl i fendithio ereill, a'i bod yn fwy dedwydd i roddi na derbyn. Y fath flwyddyn dda y bydd hi i ni, os bydd i'r oriau, wrth fyn'd a d'od, ein cael ni yn gofalu nid yn unig am ein lles ein hunain,

ond am les a llawenydd ereill. Addysgwn ein hunain i feddwl beth sydd yn eisieu ar ereill, beth a felusa fywyd iddynt hwy. Bydded i ni ffurfio arferion o weithredu yn garedig ac o siarad yn garedig, y perarogl hwnw o ewyllys da sydd yn danfon gorfoledd a nerth i galonau ereill. Bydd i'r gofal hwn dros hapusrwydd ereill, y meddwl hwn o beth sydd yn eisieu arnynt, i gael eu talu yn ol i ni, fesur da, dwysedig, ac yn ysgwyd drosodd.

Mae llawer iawn o gydymdeimlad yn y byd, ond mae eisieu iddo gael ei gyfeirio gan synwyr da. Mae llawer iawn o deimlad da, ond mae eisieu iddo gael ei dywys. 'D'yw cymhelliadau o natur dda ddim yn ddigon. Yr arfer sydd arnom ni eisieu yw yr arfer i feddwl am ereill, i'w cofio nhw, gosod ein hunain yn eu lle trwy ymdrech o eiddo y dychymyg. Dyma beth sydd yn helpu ereill fwyaf, ac am hyn y maent yn fwyaf diolchgar. Gosod ein hunain wrth eu hochr, myned yn amyneddgar i'r sefyllfa y maent hwy ynddi—dyna'r hyn sydd yn eisieu.

Rhaid i ni gymmeryd dyddordeb yn mhersonau yn gystal ac yn y lluaws, mewn unigolion yn gystal ac mewn dosparthiadau. Pan yr ydym ni yn siarad am y dosparthiadau gweithiol, neu ddosparthiadau troseddol, neu y dosparthiadau sydd yn dyoddef, yr ydym yn eu taflu ffwrdd oddiwrthum ein hunain. O ganlyniad, astudiwch pob dyn fel person, gyda theithi ac angenion personol; astudiwch pob un yn gariadus fel plentyn Duw, wedi ei fwriadu gan Dduw ar gyfer amcan neillduol. Yr ydym yn astudio cyfansoddiad y planhigyn neu y trychfilyn gyda syndod, ac yn gallu gweled y gallu Creadigol mawr ynddo. Gyda pha faint mwy o syndod yr edrychwn ni ar yr arddangosiad dieithr a rhyfeddol hwnw, yr enaid dynol? Y fath ddyfnderoedd, y fath bossiblrwydd o dda a drwg, y fath alluoedd annhysbyddadwy. Yn allanol gall dynion ymddangos yn gyffredin, a'u bywydau yn ddinod. Ond rhoddwch eich hun mewn perthynas wirioneddol ag unrhyw fod dynol, ac yr ydych yn myned i mewn i Deml y Goruchaf. Yr wyf yn sefyll yn yr Eglwys Fawr Gadeiriol, gyda'i thorf o gapelau, ei cholofnau mawreddog, ei ffenestri gorwych, ei phomp a'i gogoniant. Mae arswyd yn disgyn ar fy enaid wrth gofio am y gweddïau, yr anthemau, y deisyfiadau ag ydynt wedi myned i fyny at Dduw yn y lle hwn; ond mae ofn ac arswyd uwch yn disgyn arnom pan yr ydym yn gweled ymdrechion enaid dynol. Pryd hyny yr ydym yn dweyd, "Mae yma un mwy na'r deml." "Nid oes yma onid tŷ i Dduw, a dyma borth i'r nefoedd." 'Does dim byd mor ddyddorol i ddyn â dyn. Dyna'r rheswm yr ydym ni yn darllen ffugchwedlau, gan annghofio na ddyfeisiwyd yr un ramant erioed yn debyg i'r hon sydd wrth ein hochr yn mywydau dynol. Bydd hon yn flwyddyn newydd dda i ni os dysgwn ynddi i gael dyddordeb newydd yn ein cyddddynion.

Ond ar gyfer y fath waith, mae'n rhaid i ni gael ysprydoliaeth uwch nag ysprydoliaeth athrylith ddynol. Rhaid i ni gael ein tywys gan yr ysprydoliaeth. Y fath dangnefedd sydd yn dyfod i ni, pan yr ydym yn sylweddoli fod y fath ysprydoliaeth bob amser yn ein harôl; dim

ond i ni gydsynio i gael ein tywys, rhoddir i ni beth i feddwl, i wneyd, ac i ddweyd. Yna byddwn yn barod ar gyfer pob achlysur, ac ni fydd un ddyledswydd yn rhy galed, oblegyd mae genym o fewn yr enaid ffynnon o ddwfr yn llifo yn dragywydd—tywysiad a dylanwad digonol ar gyfer pobpeth. Cofiwn na ofynir i ni byth wneyd dyledswydd heb fod y gallu hefyd yn cael ei roi i ni i'w chyflawnu. Y flwyddyn hon bydded i ni dyfu mewn gras; bydded i ni ymbwyso fwy-fwy ar yr ysprydoliaeth fewnol hon; byddwn sicr y bydd i'r dyddanwch hwn, y goleuni hwn, y tywysiad hwn, y nerth a'r tangnefedd hwn, bob amser yn eiddo i ni.

Fe ddysgodd y flwyddyn ddiweddaf lawer o lawenydd a llawer o dristwch. Mae wedi dwyn oddiarnom ni lawer o gyfeillion anwyl a godidog. Mae wedi rhoi i ni lawer o gyfleusderau. Mae wedi dangos i ni brydferthion anian, fwynderau cyfeillgarwch, wedi amlygu i ni ogoniant byd sydd yn estyn tuhwnt i derfyngylch amser, wedi dwyn o'n blaen symmudiadau mawrion mewn hanesyddiaeth ddynol, ac wedi dangos fod dynolryw o hyd ar eu cynnydd, yn ymestyn yn barhaus am fwy o berffeithrwydd. Byddwn ddiolchgar am yr oll, a boed i ni ymddiried yn Nuw am y dyfodol. J. F. C.

GWEDDI BLWYDDYN NEWYDD.

(Gan Adelaide Anne Procter.)

Nid wyf yn ceisio, Arglwydd, fod fy mywyd
I gyd yn hyfryd;
Ac nid wy'n ceisio genyt Ti ysgafnu
Fy meichiau imi.

Nid wyf yn ceisio cael yn wastad flodau
Ar hyd fy llwybrau;
'Rwy'n gwybod yn rhy dda am lu peryglon
Pethau melusion.

Un peth yn unig wyf am gael, O Arglwydd,
Cael Duw'n arweinydd;
Er pallu'm nerth, er hollol ddigaloni,
Dwg hyn oleuni.

Ni cheisiaf genyt 'nawr i dywallt arnaf
Dy wawl tanbeidiaf;
Rho im' gael golwg ar dy hedd, áf wed'yn
Yn mlaen heb ddychryn.

Nid wyf yn ceisio deall fy holl groesau,
Na gwel'd fy llwybrau;
Gwell yn y gwyll gael teimlo'th law ryw dipyn,
Ac yna dylyn.

Diorphwys ddydd yw lloniant, hedd aruchel
Sy fel nos dawel;
O arwain, Arglwydd, oni ddelo ini
Hedd a goleuni!

Drenewydd-yn-Nottais,
Hydref 8, 1893. T.C.U.

Y PARCH. CHARLES LLOYD, LL.D., 1766—1829.

Cyrhaeddodd y Dr. Lloyd safle uchel fel gweinidog ac ysgolfeistr a llenor goleuedig yn mhlith yr Undodiaid yn Lloegr cyn dechreu y ganrif bresenol. I ni, fel Cymry ac Undodiaid, mae ei enw a'i hanes yn ddyddorol am resymau eraill, yr hyn a ddymunwn ei wneuthur yn amlwg trwy hyn o erthygl. Yr oedd yn drydydd mab i Dafydd Llwyd* (1725—1779), gweinidog Llwynrhydowen; a ganwyd ef, 18 Rhagfyr, 1766. Dewis ei fam oedd rhoi yr enw Chares iddo, o barch i'w hewythr o Lanfechan. Gellir meddwl oddi wrth y dyfyniad canlynol allan o lythyr a anfonodd ei dad at ei frawd Posthumus tua dechreu 1767, nad oedd efe yn hoff o'r enw. Ebe fe, "The little chevalier is taken care of by a nurse in the house, and thrives extremely well, notwithstanding the mother's illness; and I can assure you I am not less fond of him for his unlucky name. It was given to oblige Letty [Letitia oedd enw y wraig], whose memory of Charles Lloyd of Llanvaughan is equal to my abhorrence of the vile St——t. And I don't despair of convincing you in the course of half a dozen letters that the poor brat's name will hurt neither its soul or society." Tebyg fod y dyfyniad uchod yn adlewyrchu i ryw raddau deimlad awdwr y llythyr, ond tybiwn y dylem edrych arno yn fwy fel tipyn o speng gwleidyddol.

Mae yn hen ddywediad fod y plentyn yn dad y dyn. Mewn ystyr, cynwysir y dderwen yn y fesen, ac yn ddiamheu fod yr holl elfenau a gyfansoddant garitor y dyn, i'w cael yn wreiddiol yn y plentyn, pe gallem ond eu gweled. Dengys hyn mor bwysig ydyw fod rhieni yn ceisio deall gwahanol nodweddion caritor eu plant, fel y gallont wybod pa bryd i anog a pha bryd i geryddu neu atal.

Dyma stori fach yn dangos un nodwedd a ddilynodd wrthddrych ein cofiant trwy ei oes, ac a fu trwy ei oes yn rhwystr mynych i'w boblogrwydd a'i lwyddiant. Pa un a fuasai pwysau gwialen fedw drom ar ei grwper y noson hono yn foddion i ddiwreiddio'r nodwedd, nis gwyddom; ond credwn y byddai yn *experiment* gwerth ei dreio. Nid ydym yn credu mewn nambi-pambi-aeth fel cynllun i ddysgyblu plant. "Spoil the rod and spare the child" ydyw arwyddair y cynllun hwnw. Gwell genym ni gynllun Solomon, sef gweinyddiad

---

*Gweler Ymofynydd, 1887.

doeth o'r oruchwyliaeth wialenol. Dyma drefn natur hefyd. Ond at y stori:

Yr oedd Charles a Pegi yn blant, ac wedi myned i'r gwely er ys tipyn, pan y clywodd y fam lais dolefus Pegi yn llefain, "Mam! mam! mae Charles yn pallu gadael llonydd i fi." Ac meddai'r fam, "Charles, beth y'ch chi'n peidio gadael eich chwaer fach yn llonydd?" A dyma ateb Charles, "Ydw i'n gwneyd dim ond dweyd wrthi am dewi son a chysgu;" ac yna, fel o'r blaen, dywedai yn ei chlust, "Taw son a chysg, taw son a chysg!" Dyna i gydwnelai y diniwed, dim ond dywedyd, "Taw son a chysg, taw son a chysg," drosodd a throsodd, nes gyru'r plentyn bron yn gynddeiriog, ac i lefain yn y modd mwyaf torcalonus. Parhaodd i roddi ei gyngor call yn yr un geiriau, "Taw son a chysg," nes blino o'r diwedd—ei unig feddwl, os oedd ganddo feddwl, clwyfo teimladau ei chwaer fach.

Pan fu farw Dafydd Llwyd (4 Chwefror, 1779), cymmerwyd gofal am addysg Charles gan ei ewythr, John Lloyd, Coedlanau; a danfonwyd ef i'r ysgol at y Parch. David Davis, Castell Hywel, lle y bu am yspaid pum mlynedd. Wedi hyny, aeth i'r Coleg Presbyteraidd, y pryd hwnw yn Abertawe, ac o dan lywyddiaeth Solomon Harries (1726—85), gweinidog parchus y capel yn High Street, ac awdwr Emynau 22 a 305 yn "Emynau Mawl a Gweddi." Enillodd ysgoloriaeth o ddeg punt wrth fyned i mewn; ond prin oedd ei arian, a chaled fu ei fywioliaeth tra yn y Coleg. Aeth y Coleg trwy lawer o gyfnewidiadau yn ei amser ef, yr hyn nid oedd ffafriol i addysg a dysgyblaeth y myfyrwyr. Achwyn yn hytrach y mae Charles ar ei holl athrawon oddigerth un. Bu farw Harries yn 1785, ac ar gais y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, ymgymmerodd Josiah Rees (1744—1804), Gellionen, a'r llywyddiaeth. Yr oedd Mr. Rees yn ysgolhaig gwych, ond gwanaidd oedd ei iechyd, ac achwyn arno a wnai Charles. Tebyg fod Charles yn ysgolhaig lled dda yn myned i'r Coleg, ac mor debyg a hyny ei fod yn sychedig iawn am wybodaeth. Cynorthwyid Mr. Rees gan Thomas Lloyd, cefnder Charles, a mab y John Lloyd a grybwyllwyd eisoes. Yr oedd Thomas yn meddu galluoedd dysglaer, ac yr oedd wedi derbyn ei addysg golegol yn rhywle yn Lloegr. Trwy ei yspryd mwyn a charedig, enillodd serch a chariad pawb ar unwaith, ond bu farw yn 1789 yn ddyn ieuanc, 25ain oed, er colled a galar i bawb a'i hadwaenai. Yn 1786, daeth William Howell, o Chilwood, i fod yn athraw duwinyddol. Nid oedd Charles Lloyd yn gallu stymogi fawr ar y dduwinyddiaeth oedd yn gael, a meddwl isel oedd ganddo am alluoedd a gwybodaeth Howell.

Tua'r adeg yma, sefydlodd yr athrawon ysgol ragbarotoawl, a phenodwyd Charles Lloyd i fod yn athraw yn y prydnawn. Nid oedd gan Charles feddwl uchel am neb o'i gydfyfyrwyr, a dywed nad oedd ond un o honynt wedi cyrhaedd safle o bwys wedi myned allan o'r Coleg. Yr un hwnw oedd Lewis Loyd. Fe ddywedodd Kilsby lawer am Lewis Loyd yn ei ddarlith ar "Ddynion wedi codi o Ddim." Bu Lewis am dymhor yn fugail eglwys Undodaidd yn Lloegr; ond nid yn hir. Cafodd allan fod ganddo fwy o ddawn i gasglu arian nag i achub

eneidiau, ac ymroddodd o hyny allan i wasanaethu Mammon. Fe drodd yn arianydd (*banker*), ac yn y swydd hono fe gasglodd arian aruthrol. Clywsom fodd bynag iddo orfod eu gadael i gyd ar ei ol. Cha'dd e ddim cadw gymaint a dernyn grot i dalu Charon am ei rwyfo yn groes i'r afon. Mab iddo oedd Samuel Jones Loyd, Barwn Overstone. Nid ydym yn gwybod fod y mab na'r tad wedi bod o fawr gwerth mewn ystyr grefyddol. Clywsom i'r mab droi yn Eglwyswr ac yn Dori. Nid oedd gan y Proffeswr Agassiz, y naturiaethwr enwog yn America, fawr golwg ar ddyn nad oedd yn ddim ond *money-bag*—yn gwasanaethu swydd hen osan. Eto, yn ddiamheu fod y rhai hyn fel llawer o greaduriaid eraill nad ydym ni yn deall eu defnydd, o ryw les yn ngoruchwyliaeth y Tad Goreu. Bu farw Lewis Loyd, y miliwnydd Cymreig enwog, yn 1858, yn 90 mlwydd oed.

Ond i ddychwelyd at Charles Lloyd. Gadawodd y Coleg yn 1788, gydag iechyd gwanaidd iawn, ac yn brin o arian yn ei boced. Aeth i Hotwells, gerllaw Bristo, lle y derbyniodd lawer o garedigrwydd oddiar law John Wright, M.D., a'i frawd Thomas Wright, gweinidog Lewin's Mead ; a dyma braidd yr unig bersonau y mae ganddo air caredig iddynt yn ei lyfr rhyfedd, a gyhoeddodd i roddi hanes ei fywyd ei hun. Trwy ddylanwad Nathaniel Phillips, ein gweinidog yn Derby, mab i Gymro, ac henafiad y marsiandwyr enwog yn Manceinion (Manchester) hyd yn awr, dewiswyd ef, Awst, 1788, yn weinidog yn Evesham, gyda chyflog o £40. Yr oedd ar yr amser hyn, o ran ei gred, yn "Ariad lled uchel." Cychwynodd yno Ysgol Sul a gwasanaeth hwyrol, a chynyddodd y gynulleidfa o 40 i 200. Dymunai weinyddu'r ordinhadau, fodd bynag, heb ei urddo, yr hyn ni fynai y gynulleidfa. Ymgynghorodd a Dr. Priestley, y pryd hwnw yn Birmingham, yr hwn, er mawr syndod iddo, a'i anogodd i gymmeryd ei urddo. Eithr ni wnai, ac o'r diwedd darfu i'r eglwys roddi ffordd er mwyn gochelyd y draul mewn cysylltiad a'r urddiad. Yn fuan wedi hyn, dechreuodd amheu yn nghylch bedydd plant, a'r 3 Ebrill, 1790, gosododd gerbron yr eglwys ei ddymuniad i roddi heibio'r ordinhad neu ymddiswyddo fel gweinidog. Derbyniwyd ei ymddiswyddiad. Gyda help Dr. Joshua Toulmin, yr hanesydd enwog, cafodd fugeiliaeth eglwys o Fedyddwyr yn Ditchling, yn Sussex, yn Mai, 1790. Yno fe gymmerodd ei fedyddio, ond gwrthododd y seremoni o arddodiad dwylaw, y pryd hwnw yn gyffredin yn mhlith y Bedyddwyr, a gwrthododd drachefn gymmeryd ei urddo. Yma gwrteithiodd yr ymarferiad o bregethu heb bapur, hyny yw, fe bregethai, fel y dywedir, o'r frest, neu dros y fraich. Yr oedd ei incwm y pryd hyn yn driugain gini.

Yn 1792, cychwynodd ysgol, a phriododd yr haf canlynol. Ysgrifenai hefyd, ond heb dal, i un o'r cofnodolion Seisnig, yn erbyn y gaethfasnach ac ar bynciau eraill. Yn gynar yn 1793, rhoddodd y weinidogaeth i fyny, a symudodd ei ysgol i Exeter, lle y bu yn llwyddianus iawn am rai blynyddau—wyth ebe fe.

Tua diwedd 1799, fe ddychwelodd i Gymru. Yr oedd ei ewythr John, yr hwn a roddodd ysgol iddo gyda D.D. am bum mlynedd, er

heb fawr diolch ar ran Charles, wedi marw o bossibl er ys rhai blynyddau; a'r 27 Medi, 1797, bu farw ei frawd Richard, cydweinidog Mr. Davis yn Llwynrhydowen yn 37 oed. Trwy hyny daeth Charles yn berchen ar Coedlanau Fawr, Aeth y deilad oedd yno yn fuan wedi'n yn fethdalwr, a gadawodd y fferm wedi ei llwyr weithio allan. Ar hyn, penderfynodd Mr. Lloyd droi yn ffermwr ei hunan. Teimlai ei fod yn gwybod llawer yn nghylch y mater eisoes, a dechreuodd ddarllen llyfrau ar y pwnc yn brysur. Nid oedd wedi gwawrio arno fod ffermwriaeth mewn llyfr yn un peth, a ffermwriaeth ymarferol yn yr awyr agored yn beth gwahanol iawn. Yr oedd ei gynllun yn edrych yn nobl ar bapur, ac yn ddiamheu nad oedd yn gweled ei gerbyd a'i ddau geffyl yn aros iddo heb fod yn mhell. Doniol yw syniad ambell ddyn am bethau y tu allan i gylch ei brofiad ei hunan, a doniol oedd cynllun Charles Lloyd i gadw fferm. Carai llawer ffermwr yn Nghymru y dydd heddyw allu troi rhai o ddychymygion a breuddwydion amaethyddol Mr. Lloyd i sylweddoliad.

Yr oedd y tiroedd yn meddiant Mr. Lloyd rhwng 300 a 400 erw. Cymmerodd i fyny ei alwedigaeth newydd yn galonog, a dim rhyfedd. Fe ryfeddai'r darllenydd yn fwy pe na byddai yn galonog dan yr amgylchiadau. Yr oedd un o'i gynlluniau yn myned i sicrhau iddo gan' mil o bunnau mewn ugain mlynedd. Trwy blanu coed yr oedd hyny yn myned i fod. Aflwyddianus fodd bynag y trodd ei ffermwriaeth allan, Er enghraifft, fe gostiodd yr had barlys iddo ar y dechreu rhyw 12s. a 13s. y bwsel. Dygwyddodd y flwyddyn ganlynol fod yn un o'r rhai mwyaf ffrwythlon a gaed er ys blynyddau; a phe buasai'r prisiau ond wedi cadw i fyny i'r hyn oeddynt y flwyddyn flaenorol buasai Mr. Lloyd wedi gwneuthur yn dda. Ond canlyniad naturiol blwyddyn ffrwythlon yw fod y prisiau yn myned i lawr, a gorfuwyd iddo werthu yr holl farlys am 2s. a 2s. 6s. y bwsel. Trwy hyny fe ddiflanodd y tipyn arian oedd wedi storio, a dygwyd ef ar y planc yn deg. Rhoddodd heibio ffermu, a rhentodd Coedlanau ar brydles o 21 mlynedd—ac am rent a ymddangosai i'r perchenog yn isel iawn. Gallodd y deilad nid yn unig dalu y rhent, ond, fel y clywodd y perchenog, gallodd osod ychydig heibio erbyn tywydd gwlyb Tebyg genym mae nid wrth lyfrau ei feistr y gweithiai'r fferm, i sicrhau y fath lwyddiant.

Yn ystod ei arosiad yn Nghymru, bu Mr. Lloyd yn ddiwyd iawn gyda thaenu ei syniadau duwinyddol. Yr oedd yn barnu ei fod wedi cyrhaedd syniadau sefydlog erbyn hyn, ac na byddai llawer o achos newid arnynt mwy hyd derfyn ei ddyddiau. Rhoddodd addysg i amryw ddynion ieuainc er eu cymhwyso i fyned i'r Coleg, a bu yn offerynol i sefydlu achosion newyddion yn Capelgroes a Phantdefaid (Gweler Llythyrau T. T. ar John James yn yr Ymofynydd.)

(I'w orphen.)

Mae y ffydd eangach yn credu y goreu am bob peth; y goreu am ddyn, y goreu am Dduw. Nis gall amheu fod y goreu yn hollalluog. —*Everett.*

CWYN Y CRISTION.*

Fel hyn y cwynai'r Cristion mewn dychryn, aeth, a braw :
'Rwy'n ofni try yr Iesu fi ar yr aswy law,
I blith y gwrthodedig, i fyw'n y ffyrnig ffau !
Agored ddrws trugaredd anfeidrol gwedi ei gau.

Y dynion na etholwyd gan Dduw i'r nefoedd fry,
I'r tân anniffoddadwy y gyrir hwynt yn llu ;
Ond Crist a dd'wed, "I'r nefoedd, fendigedigion, dewch ;
At ddiafol a'i angylion, chwi annuwiolion, ewch."

Nid adwaen I mo honoch," y barnwr dd'wed yn hy',
Ewch ymaith oddiwrthyf, y melldigedig lu ;
Rhaid i chwi fyw'n dragwyddol o tan uffernol boen,
Ni phrynwyd dim o honoch â gwerthfawr waed yr Oen."

Fel hyn yr ydwyf beunydd a'm deurydd dan y dw'r,
A'm hyspryd tan galedi, yn mron a soddi'n siwr ;
Wrth feddwl bydd myrddiynau mewn poen nas gwn I pwy,
'Rwy'n ofni bydd fy hunan yn un o honynt hwy.

Mae'r poen yn annhraethadwy, rhyw lyn ofnadwy yw,
O gymmysg dân a brwmstan a llid anfeidrol Dduw ;
Y pryf nid yw yn marw, na'r tân yn diffodd chwaith,
I bellder annherfynol y tragwyddoldeb maith.

'Nol byw o dan arteithiau, flynyddau rif y gwlith,
Ni fyddaf ddim ond dechreu y poenau bery byth ;
Ac wedi'n byw flynyddau rifedi llysiau'r llawr,
Ni fydd ond megys munyd o'r tragwyddoldeb mawr.

Trachefn 'nol byw flynyddau, rhif sêr y nef yn awr,
Rhifedi'r mân ronynau sy'n gwneyd y ddaear fawr ;
Rhif dafnau'r trwm gafodydd, er creadigaeth byd,
O'm blaen bydd tragwyddoldeb, 'nol treulio rhai'n i gyd.

Mae'r meddwl hwn yn chwerwi pob mwyniant ddel i'm rhan,
Mae'n attal pob cysuron, mae'n llethu f'enaid gwan,
Wrth gofio'r lle arswydus a ragordeiniodd Duw,
I boeni yn dragwyddol ran fawr o ddynol ryw.

O Arglwydd Dduw y lluoedd, ai felly rhyngodd bodd
Doethineb a daioni—can's trefn y rheiny o'dd—
Pwy gysur, pwy ddedwyddwch, a gaiff daioni pur,
Wrth gynnal bod a theimlad dros fyth mewn dirfawr gur ?

---

* Ar gais, cyhoeddir yr hen gân odidog hon, yr hon a ymddangosodd yn yr YMOFYNYDD am Tachwedd, 1862.

Gwell genni'm llwyr ddifodi nag adgyfodi i fyw
Yn y cadduglyn obry, tan nerth digofaint Duw,
Mewn poen nas gall'sai dyfais yr Hollwybodol Un
Ei wneyd yn waeth, er cospi'r creadur gwael o ddyn.

Pe cawn I fyn'd i'r nefoedd, i blith y lluoedd llon,
I blith y dynion goreu fu ar y ddaear hon,
Y lle, er mor rhagorol, fydd annymunol iawn,
Tra'n gwel'd fy nghydgreaduriaid yn uffern obry'n llawn.

Efallai gwel'd fy mhlentyn, yr hwn wy'n garu'n fawr,
I'r llyngclyn anobeithiol yn cael ei daflu i lawr—
Ei ganfod yn y fflamiau, a gwrando ar ei lef,
Wna 'nghalon dirion dori, er bod yn nheulu'r nef.

A fydd i'r teimlad dynol, y serch naturiol sydd,
Yn rhwymyn cyfeillgarwch rhwng dynion nos a dydd,
Yn rhewi i fyny'n hollol o fewn i'r nefol wlad—
Y lle teyrnasa cariad tragwyddol ei barhad ?

O na, os fy rhieni ânt i'r trueni trist,
A'u cau yn hollol allan o Deyrnas Duw a Christ,
Un delyn aur na phalmwydd (o fewn i'r nef fydd dim),
Tra gwelaf hwynt mewn poenau, a rydd ddedwyddwch im'.

Nis gallaf fi ddychymyg am nefoedd uchel nôd,
Tra byddo poen diddiwedd, ac uffern fawr yn bod ;
Fy meddwl I'n ddiragfarn, a'm ffydd yn gadarn yw—
Na fydd y fath drueni o tan lywodraeth Duw.

* * * * * *

Ow ! Gristion annyddanus, mi'th wela'n glwyfus glaf,
Yn byw tan ddu dywyllwch, er mewn canolddydd Haf,
Mae llygad gwan dy feddwl dan gwmmwl tywyll du,
Ac felly dychryniadau o'th amgylch o bob tu.

Dy gredo ddychrynedig yn sylfaenedig sydd
Ar eiriau cymhariaethol—diffygiol yw dy ffydd ;
Drwy goledd gwael syniadau annghywir am dy Dduw,
Mae'th yrfa'n annghysurus—yn boenus 'rwyt yn byw.

Cyff lybu'r Bod Anfeidrol i ryw ddaearol ddyn ;
O nage, mi gamsyniais, ond llawer gwaeth na dyn ;
Hoff iawn gan ddynion weled eu plant yn ddedwydd oll,
Ond Duw yn rhag-arfaethu myrdd i dragwyddol goll !

Syniadau rhy annheilwng o'r Hwn a wnaeth y byd.
Ni welir ond arwyddion o gariad drwyddo'i gyd ;
Da iawn pob peth a greodd, fe ddywedodd Duw ei hun,
Mae'n gabledd d'wedyd iddo ordeinio damnio dyn.

Myfyria ar Ragluniaeth, a doeth lywodraeth Duw,
A gwel ei fwyn ymddygiad at bob creadur byw ;
Mae ffrydiau o gysuron a red fel afon gref
Bob dydd drwy'r greadigaeth yn brawf o'i gariad ef.

Dysg holl weithredoedd natur, a'r 'Sgrythyr gywir, goeth,
Bod Duw yn Hollalluog, a digamsyniol ddoeth ;
Mae'n meddu pob awdurdod—pwy all ei orfod ef ?
Mae arno'n ymddybynu golofnau dae'r a nef.

Dysg pob rhyw ymddangosiad, a phrofiad pob rhyw ddyn
Mai achos ei wneuthuriad oedd cariad Hwn ei hun.
Lle gwelir nod o'i allu'n y greadigaeth faith,
Fe welir nod o'i gariad yn wastad yn ei waith.

Yr haul a rydd ei oleu o'r uchelderau fry,
Ei wres a ddyry fywyd i ryw aneirif lu
O lysiau hynod lesiol, at gynnal dynolryw—
Haelionus roddion cariad yr Hollalluog Dduw.

A rhag i'r haul dywynu i raddau mwy nâ'n lles,
Rhydd wyntoedd a gwlawogydd i gymmedroli'r gwres ;
Yn glau wrth ei orchymyn, i'r awyr dyrcha'r tarth,
Drachefn i lawr defnyna, i ddwfrhau pob parth.

Mae Ef yn rhag ddarparu ar gyfer dyn bob pryd,
Mae'n rhoi tymhorau ffrwythlawn, mae'n llwytho'r ddae'r ag yd,
Mae'i gariad yn dysgleirio fel haul ar ganol dydd :
Gwna hwn—O gâd dy gulfarn—yn gadarn ffon dy ffydd.

Amlygiad o'i fawr gariad yn hynod eglur gawn
Yn rhoddiad cyfarwyddyd i dywys dyn i'r iawn,
O lwybrau y cyfrgoll a maglau pechod trist,
Trwy Moses a'r proffwydi a'n Harglwydd Iesu Grist.

Mae dyn yn ol ei duedd naturiol am fwynhau
A allo o ddedwyddwch : rhag poen fe gilia'n glau ;
Duw roddodd yn gynnorthwy i ddyn oleuni'r gwir
I'w dywys yn ddyogel trwy ddyrus anial dir.

Mae 'i gariad yn anfeidrol, uwchlaw amgyffred dyn,
Holl ieithoedd byd ni thraethant ei ddoniau'n un ac un
Fe bery'n ddigyfnewid at bob creadur byw,
'Run hyd, 'run led ei gariad, tra byddo Duw yn Dduw.

Tra'r plant yn anwybodus, yn gwrthod ufuddhau,
Mae'n arfer moddion cymhwys i'r dyben i'w gwellhau ;
Os methu wna cynghorion, mae Duw fel tirion Dad,
Yn rhoddi ei geryddon, rai llymion, er gwellhad.

O'i gariad yn y dechreu sylfaenodd Duw y byd,
O'i gariad dianwadal mae'n cynnal hwn o hyd,
O'i gariad mae'n rhoi cerydd, o'i gariad mae'n rhoi hedd,
O'i gariad bydd yn cospi mewn byd tu draw i'r bedd.

Rho gyflawn bwys dy obaith ar gariad difrad Duw:
Fe'th weryd o'r trueni, lle 'rwyt ti 'nawr yn byw;
Mae'i allu a'i ddoethineb a'i gariad oll-yn oll:
Dwg bawb i ddidranc wynfyd, nid ä un dyn ar goll.

Ond cofia hyn o ddifri', os byw mewn pechod wnai,
Nid ä i'r nef ddim aflan—mae'n rhaid dy lwyr lanhau;
Rhydd pechod glwyfau dyfnion, gwna'r galon oll yn gur,
Rhaid goddef loesau chwerwon, cyn gwella'r rhai'n yn bur.

Os ufuddhawn o'r galon i Dduw tra ar ein taith,
Nid rhaid i'r iach wrth feddyg, na moddion chwerwon chwaith.
Os rhodiwn lwybrau'r nefoedd yn ddiargyhoedd, gwn,
Ein harwain gawn i'r gwynfyd, tu draw i'r bywyd hwn.

Dyffryn Clettwr, Ceredigion. JOHN THOMAS (1775—1863).

Y DDAMEG OREU.

NID oes dim, dybiaf fi, a'n dwg ni mor agos at yr Iesu gwirioneddol a'r damegion. Nid yw yr offeiriaid a'r duwinyddion a'r esponiadau ddim wedi gallu gwyrdroi a dinystrio r damegion. Yr oedd yr Iesu yn rhyfeddol o ddynol ac o syml ac yn llawn cydymdeimlad. Gellir cael llawer cipolwg swynol ar Dduw ac ar ddyn yn y damegion—yn nameg yr hauwr, er enghraifft, a dameg yr hedyn mwstard, y trysor yn y maes, y llafurwyr, y deng morwyn, y ddau ddyledwr, y Samaritan da, y ddafad golledig, y Pharisead a'r casglwr trethi; ond o'r oll yr oreu, fel darlun cyffrous o ddyn yn ei ffolineb a Duw yn ei drugaredd yw dameg y mab afradlon.

Mae pob llinell o'r stori yn fyw, yn ddysglaer, ac megys yn crynu gan deimlad a dyddordeb ac ystyr. Y fath frys sydd ar y ffwl ieuanc druan i osod i fyny drosto ei hunan! "Fy nhad, dyro i mi y rhan a ddygwydd o'r da;" a dyna'r tad tyner galon yn boddloni, ac yn rhoddi iddo yr hyn mae yn ei ofyn. Ond ymddengys mai ei brif feddwl ef yw cael bod at ei ryddid, a chael gwneuthur fel y myn. "Ar ol ychydig ddyddiau" mae yn gadael cartref, ydy'n siwr, ac yn cymmeryd ei daith "i wlad bell." Onid oes rhyw gymmysg deimlad o dosturi a dirmyg yn y desgrifiad byr a chynwysfawr yma, o frys y ffwl ieuanc i adael cartref ac i ddianc llywodraeth,—"ar ol ychydig ddyddiau" ac "i wlad bell!" Ac yno mae yn ynfyd wario ymaith arian ei dad "gan fyw yn afradlon." Ond y mae dydd troi yn d'od, yn mhen

tipyn, "wedi iddo dreulio y cwbl, cododd newyn mawr trwy y wlad hono, ac yntau a ddechreuodd fod mewn eisieu." Ac eto y mae rhyw gyffyrddiad tyner o dosturi a dirmyg yn ymddangos, yn yr ychwanegiad, "ac ni roddodd neb iddo." Nid oes yr un o'r cyfeillion anwyl yn ei adwaen yn awr, dim o'r un o'r rhai fu'n ei helpio i wastraffu arian ei dad—nid oes neb a edwyn y cardotyn llwm, heb geiniog yn ei boced, "ni roddodd neb iddo." Yr oedd yno un, oedd yn siwr, un a'i helpiodd. Rhoddodd porthmon moch *job* iddo, fel y gallai gael tamaid. Fe'i gyrodd i'w faesydd i borthi moch! A'r adyn truan, yr Iuddew ffroenuchel, oedd wedi ei ddarostwng mor isel fel y "chwenychai lenwi ei fol a'r cibau a fwytai y moch. Yr oedd y boneddwr wedi myned yn lled isel erbyn hyn.

Ond dyma'r adeg "y daeth ato ei hun," ie darllenwch, "y daeth ato ei hun," y daeth i'w synwyrau fel y dywedem ni. Syrthiodd y cen oddiar ei lygaid. Bellach yr oedd tlodi a newyn wedi dysgu iddo wers y methodd rheswm a chydwybod ei dysgu. Daw adgofion melus am dŷ ei dad i'w galon newynog, a phenderfyna fyned adref, "mi a godaf ac a af at fy nhad," ebe fe,—"fy Nhad!" Dyna lle'r oedd un gair o obaith i'r afradlon truenus. Ac yna mae yn dechreu meddwl beth gaiff e ddywedyd. Mae yn myned i gyffesu ei bechodau a'i ffolineb; ac i ddywedyd nad yw mwy deilwng i gael ei alw yn fab: efe a erfynia am gael ei wneuthur yn was cyflog. Ac felly cyfododd a throdd ei gamrau yn ei ol i gyfeiriad cartref unwaith drachefn. Ac fel mae'n myned rhag ei flaen, mae'n ceisio dyfalu sut dderbyniad gaiff. Ond nid oes eisieu iddo bryderu. "Tra'r oedd efe eto yn mhell oddiwrtho, ei dad a'i canfu ef, ac a dosturiodd, ac a redodd, ac a syrthiodd ar ei wddf ef, ac a'i cusanodd." A cheisiodd y truan llawd adrodd ei wers chwerw; ond rhwystrwyd yr araeth fechan druenus ar yr haner, gan lawenydd y tad. Onid hwn oedd ei druan fab, yr "hwn oedd yn farw ac a aeth yn fyw drachefn, a fu golledig ac a gafwyd?"

Wrth gwrs, ydy'r hanes fel y dywedwn ni ond stori, ond fe'i hadroddwyd gan yr Iesu gydag amcan amlwg. Mewn gair, stori tosturi'r Tad nefol yw at drueiniaid edifeiriol. A sylwer mor gywir y desgrifia'r stori yr afradloniaid ydynt yn gadael cartref eu Tad nefol.

Y mae ein hymadawiad oddi wrth Dduw, ein cefniad ar gartref, bob amser, yn yr ystyr dyfnaf o hono, yn golygu math o hunangarwch neu hunan-haeriad. Yr ydym am wneyd fel y mynwn. Y mae enaid anufudd-dod yma. Penderfynwn fyw yn ein ffordd ein hunain, a grabio yr hyn nad oes o leiaf un brys i ni ei wneyd yn eiddom, ac yr ydym am ei ddefnyddio fel y mynwn. Mae hyn yn gwbl groes i ysbryd cywir plentyn, ac i'r warogaeth sydd a'r rhoddiad i fyny o'r hunan ag ydynt wrth wraidd pob duwioldeb pur.

A'r newyn hwnw a ddaeth ar yr afradlon hwn nid oedd ond megys cysgod o'r newyn arall sydd yn ein haros yn mhob llwybr lle nad yw Duw yn cael ei adnabod, lle'r adwaenir ond hunanfoddhad yn unig.

Nid oes dedwyddwch gwir a pharhaol mewn hunan-fwyniant, yn y mwyniant sydd wedi ei wreiddio mewn hunanhaeriad. Mae pob mwyniant pur yn ffoi oddi wrth yr yspryd afradlawn. Y dyn o feddwl cyflym, yr hwn nid yw ei fywyd yn fywyd o warogaeth i Dduw, fe ddichon iddo guddio newyn ei enaid trwy philosophi a bywiogrwydd corff a meddwl, a thrwy fyned ar gylch o bleserau. Ond am y dynion na feddant adnoddau mawrion, cant deimlo lawer gwaith yn eu bywyd, a hyny gyda galar, eu hamddifadrwydd o'r cysur sydd yn deilliaw oddiwrth warogaeth i Dduw, os ceisiant fyw hebddo.

Gall fod hyd y nod yn waeth na hyny; gan y gall gadael cartref weithiau beidio arwain i newyn calon ac unigrwydd, ond i ddiraddiad o'r holl natur, ymsuddiad i gyflwr hollol anifeilaidd, a arwyddnodir yma mewn modd argraffiadol gan ddiraddiad yr afradlon yn y Ddameg, yn gorfod myned i'r maesydd i borthi moch.

Mae ymddeffroad a dychweliad yr afradlawn yma, diolch i Dduw, wedi ei gael yn wirionedd yn mhrofiad miloedd. Pa nifer ydynt wedi dywedyd—"Mae y prawf yma o fyw i mi fy hun a byw er mwyn pleser hunangarol yn fethiant hollol." Ni thyf dim sy dda yn y *soil* yna. Nid yw ond yn tlodi dyn a'i lethu a'i wneuthur yn druenus. Ac yna pan y syrthia'r cen oddiar y llygaid gyda'r dagrau, daw'r afradlawn ato ei hun, a'r enaid newynog i awyddu am Dduw ac am gartref. Mae wedi digwydd lawer gwaith, a gobeibiwn a chredwn y digwydda lawer gwaith eto yn y dyfodol yr ochr draw. Gan y gall fod gwlad bell ar yr ochr draw hefyd, a newyn ac unigrwydd a thrueni a diraddiad; ac wedi hyny, ymddeffroad bendigedig, a dyrchafiad i fyny o'r galon at y Tad sydd eto yn mhell, a'r penderfyniad i w geisio Ef neu ynte farw. Ac yna bydd y profiad o ddyfod atynt eu hunain i fyrddiynau yn y byd hwnw hefyd—lle y dywed llawer nad oes na gobaith, na goleuni, na maddeuant byth mwy.

Gofynir paham y meddyliaf felly? Caiff yr Iesu ateb. Mae oll yn gynnwysedig yn yr hawliad a geir yn y llef treiddiol hwnw—"Mi a godaf ac a af at fy Nhad!" Goreu a bendigedicaf o bob prawfion! Fy Nhad i yw. Yr wyf wedi bod yn ffol iawn, ond eto i gyd fy Nhad i yw. Gwaeled a brynted wyf, fy Nhad i yw. Ni ddichon dim newid y ffaith yna. Gall, ie, gall hyd y nod eneidiau truain colledig, yn yr anialwch blin, hwnt i'r bedd, godi eu llygaid i fyny a llefain "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd!"

Ac mae'r tad yn cydnabod yr hawl. Fe'i geilw "fy mab," "fy mab hwn, oedd yn farw ac a aeth yn fyw drachefn; a fu golledig ac a gafwyd." Yn y stori fe'i darlunir fel yn aros am y tlawd hwn, ie, ac yn ei weled, tra y mae etto yn mhell, ac yn rhedeg ac yn syrthio ar ei wddf ac yn ei gusanu. A Thydi, Dad anwyl o'r nef, oni wnei yn gyffelyb. A phan y gwel y rhai hyn, dy blant tlodion, eu ffolineb a dyfod atynt eu hunain, oni wnei dosturio wrthynt, a'u dwyn yn Dy freichiau tragwyddol, a phery iddynt deimlo, hyd y nod yn y wlad bell, mai eu Tad ydwyt, ac y bydd i Ti eu bendithio?

YR YMOFYNYDD.

O fewn Yr Ymofynydd—ni gawn faeth
Ddigon i fyw beunydd;
Hwn a ddaw o gylch 'n ei ddydd,
A'i ddôr llawn i'w ddarllenydd.

B'le mae'r bai na welai y wlad—angen
Eangu'i gylchrediad;
Cywir yw, ac o wir had,
Hanesyn da'i gynnwysiad.

Athronydd, duwinydd da iawn—ydyw,
Ymledwn ei gylchgrawn;
Doeth rhoi am ei odiaeth rawn—
Ei gyflog iddo'n gyflawn.

Mwy o sylw i'n misolyn—a rho'er
Rhag dyfod ei derfyn;
Ofni 'i lwydd y'nt bob blwyddyn—
Ystryw wael yw'r ystyr hyn.

Haul Undodol hen wiw dadau—ydyw,
Lledwn ei belydrau;
Fel noddwr hir flynyddau,
Daliai'r gwir yn rhodle'r gau.

Unig hanesyn ein henwad—yw hwn,
Mae'n honi ymlyniad;
Na attelir un taliad
Gyda'i ddalen felen fâd.

Trebanos. H. M.

ADGOFION CYMRU FU.—PENODAU ANGHOFIEDIG.

Pennod 9: Dau Frawd Hynod.

Rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ol (O fel mae'r amser yn myn'd arno fe a minau), yr oedd J.G. yn aros yn Lerpwl, neu Lle'r Pwll yn ol rhai, ac fel Cymro gwladgarol manteisiai yn fynych ar y cyfleusdra i wrando ar enwogion y pwlpid Cymreig yn y lle. Un tro cafodd y fraint a'r pleser mawr o glywed y ddau frawd parchedig Henry Rees a William. Ystyrid hwy yn ddau gawr yn eu dydd—y ddau bellach wedi gorphen eu gwaith ar y ddaear.

Ar yr adeg grybwylledig cyfarfuwyd yn nghapel William Rees. Yr oedd yno wyl de wedi bod yn y prydnawn, ac yn yr hwyr cafwyd

cyfarfod adloniadol—cyfarfod o areithio ac adrodd a chanu. Er fod cymmaint o flynyddoedd wedi pasio y mae rhyw adsain o araeth William Rees wedi glynu yn nghof yr adroddydd hyd heddyw. Golyga hyny fod yr araeth wedi gwneuthur argraff ddofn ar ei feddwl ar y pryd. Mae wedi adrodd yr hyn mae yn gofio o honi lawer gwaith o bryd i'w gilydd; ond hyd yma nid ydys wedi gweled un cyfeiriad ati trwy y wasg. Ymddengys i mi fod y stori fach yn deilwng o'i chofnodi a'i chadw ar glawr, pe dim ond er mwyn gosod ger bron mewn modd desgrifiadol enghraifft arall o nodweddion gwahaniaethol y ddau broffwyd.

Yr oedd Henry wedi siarad. Nid wyf yn cofio dim yn neillduol yn awr o'r hyn a ddywedodd. Yr oedd ymddangosiad William yn bregeth. Nid oedd ganddo ond un llygad, ond fe welai â hwnw ddau cymmaint ag a wel dynion cyffredin; ac yr oedd rhyw osgo yn ei lais ag oedd ar brydiau yn wefreiddiol, ar wahan i'r hyn oedd yn cael ei ddywedyd ganddo; ac fe ddywedai—wel, gyda help ei fraich estynedig, gyrai a ddywedai i gol.

Ebe William: Pan feddyliwyf am Harri fy mrawd a minau, 'dalla i lai na chofio am gartref ein mebyd, ac am fy hen dad anwyl, lle yr wyf yn meddwl fod Harri a minau ar ryw ystyriaeth yn debyg iawn i ddau gi--corgi a milgi—oedd gan fy nhad ys talwm. Os dygwyddai rhyw grwydryn carpiog ddyfod at y ty, cyfarthai y corgi; os troseddai y defaid neu y gwartheg, cyfarthai y corgi; os aem i hela, cyfarthai y corgi gyda'r goreu, hyny yw, fe'i gwnelai gyda'i holl egni bach. Ni chymmerai y milgi un sylw o'r crwydryn carpiog, na wnai'n siwr; a phe byddai i'r defaid fwyta'r ŷd i gyd, nid oedd hyny o un pwys i'r milgi. Ond un iawn oedd y milgi i ddal ysgyfarnogod godre'r Berwyn.

Yr wyf fi yn ceisio cyfarth tipyn hefo llenyddiaeth; a chyfarth tipyn hefo prydyddu, a chyfarth tipyn hefo areithio, ac yn cyfarth tipyn goreu medrwyf gyda phregethu; ond am Harri fy mrawd—wna fo ddim ond dal llu o ysgyfarnogod iawn o bregethau.

11 *Rhafyr*, 1893. P. P.

SURSUM CORDA.

O, weithiau, melus drem a gawn
Trwy'r niwl, ar y Tragwyddol Iawn;
O gam i gam er dechreu'r byd,
Mae'n amlwg gynydd dyn o hyd.

Holl dda'r gorphenol sydd, o'r bron,
Yn helpu i wneud y byd yn llon;
Dwyfoli'n bywyd dyddiol brau,
A gwneud pob gwlad yn Ganaan mae.

Mae'r newydd yn rhagori'n fawr,
Ar hen, yn rhyfeddodau'r llawr;
Yn wastad, gwel, pob llygad byw,
O'i gylch, ddirgelion dyfnion Duw.

Trwy arw drystiog ferw ein dydd,
Rhyw felus sain yn treiddio sydd;
A thrwy amheuon oesau hir,
Rhyw hyfryd wawl sy'n tori'n glir.

Ac felly, wylo mwy ni wnaf,
Am ddyddiau gynt, am decach haf;
Can's cariad Duw, a'r tecach lan,
Y'nt yma, 'nawr, ac yn mhob man.

T. C. U. J. G. WHITTIER.

Rhagfyr 1, 1892.

Manion ac Hanesion.

PRIODWYD.—Tachwedd 17, yn Nghapel-ybryn, gan y gweinidog, yn mhresennoldeb y cofrestrydd, Enoch, mab Evan ac Anne Evans, Ffinant, Llandyssul â Mary, merch Rachel Thomas, Ty'r Capel, Cwrtnewydd.

Eu hoes fyddo'n wir foesol—a'i hanes
Fel 'rhen Enoch dduwiol;
Oes hir iawn, ac oes ar ol
Yr oes enwog bresennol.

GWARNANT WILLIAMS.

CAERONEN.—Cynnaliodd Ysgol Sul y lle ychod ei Gwyl De Flynyddol eleni, fel bob blwyddyn, yn Wern Cottage, Cellan, ar yr 20fed o Dachwedd. Ar ol i'r plant ac ereill gael eu diwallu o de a bara brith, a dant-eithion ereill, trodd pawb eu gwynebau i gyfeiriad capel Caeronen, a phan ddaeth yr amser pennodedig, dechreuwyd gydag yni ar y cwrdd llenyddol, ac nid gormod yw dweyd i bawb fyned trwy eu gwaith mewn nodd canmoladwy, ac yr oedd y canu, yr adroddiadau, a'r dadleuon, yn ymddangos yn rhoddi boddlonrwydd cyffredinol i'r gwyddfodolion, a'r cyfan yn dangos ol llafur ar ran yr athrawon a'r dysgyblion; ac y mae D. Davies, blaenor y gân, yn deilwng neillduol o ganmoliaeth am ei afurus gariad.

GELLIONEN.—Cynnaliodd Ysgol Sul yr eglwys hon ei chyfarfod adroddiadol nos Sul, Rhagfyr 3, yn hen gapel y Graig, Trebanos, dan arweiniad y brawd ienanc, gobeithiol, Mr. James Jenkins, o Goleg Caerfyrddin; ac nid gormod fyddai dweyd fod Mr. Jenkins gystal arweinydd yn y ffordd hon ac o bregethwr. Gwasanaethwyd ar ran y cyfarfod gan y rhai canlynol:—Rachel Ann Bowen, Elizabeth Lloyde, Harriet Morgan, Mary Bowen, Elizabeth Bowen, Margaret Davies, Jane Bowen, Mary Morgan, Mary S. Davies, John Hopkin, James Evans (Glais), David Davies (Gellionen Ganol), a John J. Williams. Hefyd, cafwyd canu cynnulleidfaol tu hwnt i ddysgwyliad. Yr oedd y capel bychan wedi ei orlenwi o wrandawyr astud o bob enwad bron. Moes, moes etto, yw dymuniad pob un fu yno.

CEFNCOED.—Prydnawn Nadolig, trwy haelioni Mr. D. Eiddil Jones, rhoddwyd gwledd o de a bara brith i holl aelodau yr Ysgol Sul, y rhai, yn nghyd ag ychydig gyfeillion, a rifent oddeutu 120. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod o'r fath fwyaf dyddorol o ganu ac adrodd gan y plant. Llywyddwyd gan Mr. W. Hughes, ac arweiniwyd gan Mr. W. Harries. Nis gellir canmol gormod ar ymdrechion Mr. D. Eiddil Jones gyda'r plant, ac yn wir, gyda holl symmudiadau y gynnulleidfa,—mae wedi gweithio yn ardderchog, a chanai y plant yn odidog dros ben.

Marwgofion.

Evan

Tachwedd 12, ~~Oliver~~ Howells, Pantyscawen, Llanbedr, yn 42 mlwydd oed. Torwyd ef i lawr mewn modd tra sydyn, ac yn nghanol ei gynlluniau. Yr oedd yn fab i'r diweddar Thomas a Mary Howells, Berthlwyd, Llanbedr. Gadawodd mewn galar ar ei ol dair chwaer ac un brawd, heb son am berthynasau ereill a chyfeillion. Ar y dydd Iau canlynol, daeth torf luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Gwasanaethwyd gan offeiriad y plwyf, a chladdwyd yn mynwent y Llan.

Tachwedd 30, yn Buenos Ayres, mewn canlyniad i ddamwain alaethus ar fwrdd yr agerlong *Highland Glen*, David Lewis Evans, y prif beiriannydd, yn 34 mlwydd oed. Yr oedd y cyfaill hwn yn ail fab i'r Proff. D. L. Evans, diweddar athraw yn Ngholeg Henadurol Caerfyrddin, ac unig frawd i'r Parch. George Eyre Evans, o Whitchurch. Teimlwn yn sicr y ca yr hybarch broffeswr gydymdeimlad didwyllaf ei gydnabyddion lluosog yn Nghymru yn ei ofid blin. Nodded y Tad Nefol fyddo arno yn ei hen ddyddiau.

Dydd Iau, Rhagfyr 7, Mrs. Elizabeth Evans, gweddw y diweddar James Evans, dilledydd, Overton street, Dowlais, yn 53 mlwydd oed. Nid oedd Mrs. Evans wedi mwynhau yr iechyd goreu yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf neu drosodd; ond tua thair mlynedd yn ol, cafodd ei tharo yn lled ddifrifol o glaf gan boenau fu yn yr aelodau yn dwyn rhyw debygrwydd i'r gymmalwst, yr hyn a'i hanalluogai i ymsymmud ond ychydig iawn oddeutu. Modd bynag, yr oedd wedi gwella i gryn raddau erbyn Haf blwyddyn i'r diweddaf, a thrwy gymborth ei phlant, bu yn alluog i fyned am dro i lan y môr, a derbyniodd ei chorff egwan fawr les oddiwrth hyny, a gobeithiasid y buasai, bob yn dipyn, yn cael adferiad i'r iechyd ag oedd wedi ei ddifeddiannu cyhyd. Ond cafodd bwl caled drachefn y Gwanwyn diweddaf, ac er gwella yn fawr o hono, etto, nid digon fel ag i fedru myned y tu allan i riniog ei drws. Ychydig yn fyr o dair wythnos cyn ei marwolaeth, cafodd bwl drachefn, yr hwn a fu yn achos ei hymadawiad â'r fuchedd hon. Genedigol oedd Mrs. Evans o Bontsenni, ger Defynog; ond yr oedd wedi byw yn Nowlais er pan yn ferch ieuanc. Menyw gall, dawel, a rhinweddol ydoedd, ac iddi air da gan y gwirionedd ei hun. Gadawodd dri o blant i alaru yn fawr ar ei hol—dwy ferch ac un mab, y rhai sydd mewn cyflawn oed. Bydded Tad yr amddifaid yn gysur ac amddiffynfa iddynt yn eu galar a'u hamddifadrwydd, ac er fod colli tad a mam gofalus a thyner yn ergyd rhy drwm i mi ryfygu ceisio ei ddarlunio, etto, gan wybod mai Efe yw eu Duw, bydded iddynt ymdrechu ymostwng i drefniadau doeth ei Ragluniaeth, yn y gobaith anfarwol o ail-uniad mewn byd gwell a dedwyddach. Y dydd Llun canlynol, hebryngwyd ei gweddillion marwol gan dyrfa o wyr a gwragedd bucheddol a chydymdeimladol i fynwent yr Hen Dy Cwrdd, Cefn, pryd y pregethwyd gan y Parch. J. Hathren Davies, ac y darllenwyd a gweddiwyd gan y Parchn. J. Fisher Jones ac Ivor Davies ar yr achlysur.

Yn hen fynwent hoff y Cefn huna, chwaer,
dy hun o hedd,
Ffydd a gobaith fel angelion a gastellant
gylch dy fedd.

Rhagfyr 17, David Owen, Salem, Felinfach, yn 53 mlwydd oed. Cafodd gystudd trwm, ond byr. Yr oedd yr ymadawedig yn fab i'r diweddar enwog gyssegr-ganwr, Evan Owen, o'r un lle. Gadawodd i alaru ar ei ol briod, dau fab, a thair merch, a llawer o'i gydnabod, gan y rhai mae gair da iddo. Iau canlynol, daeth lluaws yn nghyd i dalu y gymmwynas olaf iddo—i'w hebrwng i Fynwent Rhydygwin. Gwasanwyd yn y ty annedd a'r capel gan y Parch. R. C. Jones, Llanbedr, yn bur darawiadol, ac ar lan y bedd, gan y Parch. B. C. Davies, Tynygwndwn.

Efelychwn ei gymmeriad—
Un oedd anwyl gan y wlad;
Byth ni thorai ar a wyddai
O bur ddeddfau'n nefol Dad:
Gwasanaethodd hwn ei dalent,
Gwobr a ga, mawr fydd ei fraint.
Boed i ninau wneyd yr unpeth,
Er cael rhan yn mhlith y saint.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.